

Dod i'nabod aelod o GLWB GWAWR

MEIRIONA REES

Ble cefaist dy eni?

Roeddwn yn byw ar fferm yn Ffarmers am ddwy flynedd gyntaf fy mywyd, cyn i ni symud fel teulu i fferm yn Rhydcymerau, Sir Gâr.

Ble cefaist dy addysg?

Ysgol Gynradd Rhydcymerau, yna Ysgol Uwchradd Llanbedr Pont Steffan. Yn



ddeunaw oed, es i Goleg Cyncoed yng Nghaerdydd er mwyn hyfforddi i fod yn athrawes.

Unrhyw atgof plentyndod?

Bod yn bresennol mewn cyngerdd yng nghapel Rhydcymerau a gweld D. J. Williams (llywydd y noson) yn marw yn ei sedd ar ôl iddo roi anerchiad bythgofiadwy.

Ble wyt ti'n byw nawr?

Rwy'n byw yng Nghapel Isaac, Sir Gâr gyda fy ngŵr Dylan, a'n dwy ferch, Elin a Lowri.

Beth oedd dy swydd?

Bûm yn athrawes yn Ysgol Rhys Prichard Llanymddyfri am 37 mlynedd, ond rwy

wedi ymddeol ers blwyddyn a hanner. Dyna gyfnod hapus dros ben. Doedd dim yn well na gweld plant yn dod i ddarllen yn rhugl. Heb y gallu i ddarllen, byddai bywyd yn ddiflas iawn.

Pwy yw / oedd dy arwyr?

Pan ddechreuais fy ngyrfa, roeddwn yn cael fy ysbrydoli gan ddwy athrawes brofiadol sef Mrs Ray Davies (cymeriad a hanner) a'r ddiweddar Mrs Gwenlais Price. Roedden nhw fel dwy fam i mi. Nid anghofiaf eu cyngor doeth a'u hiwmor iach.

Dy wyliau gorau?

Wyth mlynedd yn ôl, es gyda fy chwaer-yng-nghyfraith i Perth, Awstralia i aros gyda fy nith am bythefnos. Gwyliau hyfryd, tywydd braf a golygfeydd godidog, ond daeth y llwch ('*ash cloud*') ac nid oeddem

yn medru dod adref. Hiraeth i ddechrau ond penderfynu hedfan i Melbourne i gael wythnos ychwanegol o wyliau cyn dychwelyd yn ddiogel i Gymru.

Beth yw dy hoff ymarfer corff?

Nofio, er wedi dweud hynny, methais gyflawni'r dasg o nofio pum medr pan yn yr

ysgol. Yna yn hanner cant oed, nofiais 5,000 medr ym mhwl nofio Llanymddyfri a derbyn tystysgrif. Rwy'n parchu hon yn fawr iawn. Erbyn hyn, rwy'n aelod o Ganolfan Gwyliau Pantglas, Llanfynydd lle rwy'n nofio'n rheolaidd.

Beth yw dy hoff fwyd?

Fy hoff fwyd yw cyri, reis a sglodion (ond rhaid gwneud yn siŵr nad oes madarch ynddo!)

Beth yw dy hoff raglen deledu?

Adre. Rwy'n hoffi gweld cartrefi selebs y byd teledu!

Beth wyt ti'n teimlo'n gryf amdano?

Ar ôl treulio pum mlynedd ar hugain yng ngofal yr Urdd yn Ysgol Rhys Prichard,

teimlaf yn gryf ei bod hi'n bwysig i bob plentyn trwy Gymru fod yn aelod o'r mudiad gwerthfawr hwn. Fy hoff orchwyl oedd annog y plant i gystadlu yn yr adran Celf a Chrefft a gweld eu hwynebau hapus wrth i grwpiau o bedwar dderbyn tystysgrifau. Hyfryd oedd cael y cyfle i ddysgu plant Blwyddyn 1 a 2 i lefaru yn yr Eisteddfod Gylch, a gweld wynebau'r rhieni'n bictiwr o lawenydd. Cymryd rhan sy'n bwysig a'u dysgu am arferion Cymreig ein gwlad.

Pam wyt ti'n aelod o ddau Glwb Gwawr?

Tua saith mlynedd yn ôl, gofynnodd aelodau Criw Cothi a oeddwn eisiau ymuno â nhw. Gan fod fy ngwreiddiau'n ddwfn yn yr ardal, roedd yn beth naturiol i'w wneud. Mewn tua blwyddyn, dechreuodd Clwb Gwawr Llanfynydd. Eto roedd yn naturiol i ymuno gan fy



Meiriona Rees

mod yn byw yn yr ardal hon bellach ers blynnydoedd, ond nid oeddwn am adael Criw Cothi. Mae'r ddau Glwb Gwawr yn rhoi cyfleoedd arbennig i mi. Rwyf wedi ymweld â llawer o fannau na wyddwn amdanynt ac mae'r cymdeithasu'n bwysig gan ein bod yn byw mewn ardal wledig. Mae dwy ohonom o Griw Cothi wedi chwarae chwist dros Sir Gâr yn y diwrnod Hwyl ym Machynlleth ddwy flynedd yn olynol.

Sut wyt yn ymlacio?

Rwyf wrth fy modd yn darllen cylchgronau o bob math, yn enwedig *Y Wawr*, a dyna pam yr ufuddheais i Angharad (sef trefnydd Clybiau Gwawr y De) ac ateb y cwestiynau hyn! Efallai y cewch chi eich dal tro nesaf!